# YMWELIAD Â SAFLE CYNLLUNIO

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Lewis Davies, Richard A Dew; Jim Evans, Clive McGregor, R. L. Owen, Eric Roberts. |
| **WRTH LAW**: | Swyddog Cynllunio (DPJ)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Dim wedi eu derbyn. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Dylan Jones (ar ran y Cynghorydd T. H. Jones) |

---

**1 38C185C - Cais llawn i godi un tyrbin gwynt gydag uchafswm uchder i'r hwb o 24.6m, diametr rotor o hyd at 19.2m ac uchafswm uchder i flaen y llafn o 34.2m ar dir yn Maes Mawr, Llanfechell**

Draft

Yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2012 fe benderfynodd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar argymhelliad y Swyddogion y dylid ymweld â'r safle.

Dywedodd y Swyddog Cynllunio mai cais oedd hwn am un tyrbin gwynt o hyd at 34.2m o uchder i flaen y llafn, uchder hwb o hyd at 23.6m a diametr llafn rotor o hyd at 19.2m ac yn cynhyrchu 50kw o bwer.

Dangosodd leoliad y cynnig i'r Aelodau trwy gyfeirio at y map a thynnodd sylw'r Aelodau at y cynllun lleoliad oedd yn dangos yr eiddo preswyl agosaf. Dywedodd wrth yr Aelodau bod yr annedd agosaf at safle'r cynnig yn 312m i ffwrdd. Roedd yr ymgeisydd wedi peri cynnal arolwg mwynderau preswyl manwl ac roedd y Swyddog Cynllunio hefyd wedi cynnal asesiad o fwynderau preswyl o safbwynt effaith weledol debygol y cynnig.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pheilonau cyfagos, dywedodd y Swyddog bod yr Awdurdod wedi ymgynghori gyda'r Grid Cenedlaethol ac nad oes gan y cwmni unrhyw wrthwynebiadau.

Edrychodd yr Aelodau ar safle'r tyrbin arfaethedig gan nodi ei leoliad mewn perthynas â'r dirwedd oddi amgylch a rhai lleoliadau eraill - Fferm Wynt Rhyd y Groes, Llyn Alaw ac Ysgol Llanfechell. Nodwyd lleoliad yr annedd breswyl agosaf i'r cynnig a rhoddwyd i'r Aelodau ffotogyfosodiad oedd yn rhoi golygfa o'r tyrbin arfaethedig o'r pwynt mynediad i'r fferm ac hefyd o bersbectif Llanfechell a Mynydd Mechell. Cyfeiriodd y Cynghorydd R. Dylan Jones at y parc carafannau a nododd y Swyddog leoliad y parc mewn perthynas â'r cynnig.

Edrychodd yr Aelodau wedyn ar safle'r cynnig a'i bersbectif o Lanfechell ac o Fynydd Mechell. Teithiwyd wedyn ar hyd y ffordd y byddai'r tyrbin arfaethedig yn cael ei ddanfon i'r fferm. Dywedodd y Swyddog wrth yr Aelodau mai'r bwriad oedd i'r tyrbin gael ei ddanfon gan gerbyd nwyddau trwm safonol, a bod y ffordd a'r Cynllun Rheoli Adeiladu a gyflwynwyd wedi eu hasesu gan yr Adran Briffyrdd.

**Y Cynghorydd J. Arwel Roberts**
**Cadeirydd**